



Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant

Amlinelliad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

Dylid cynnwys: -

- *Y cyd-destun cyfreithiol a geir mewn canllawiau o ran pa adolygiad sy'n cael ei gynnal*
- *Yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad*
- *Y cyfnod dan sylw a pham*
- *Amserlen gryno o'r digwyddiadau allweddol i'w hychwanegu fel atodiad*

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Cryno (AYPC) gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ar 20 Mai, 2018 ar argymhelliad yr Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant yn unol â deddfwriaeth statudol a nodwyd yn adran 139 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r canllawiau cysylltiedig Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016).

Cafodd y meini prawf ar gyfer yr adolygiad eu bodloni dan Bennod 6, Adolygiadau Ymarfer Plant Cryno:

Mae'n rhaid i fwrdd gynnal Adolygiad Ymarfer Cryno dan yr achosion canlynol, pan fo, o fewn ardal y bwrdd, camdriniaeth neu esgeulustod plentyn yn hysbys neu pan fo amheuaeth o hynny, a bod y plentyn wedi;

Marw neu;

Cael anaf sy'n bygwth bywyd;

Wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ddatblygiad neu;

Nid oedd y plant ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blentyn oedd yn derbyn gofal yn y 6 mis blaenorol:

- Dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu'r
- Dyddiad y bu i'r partner perthnasol nodi bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ddatblygiad.
- Dyddiad y bu i'r awdurdod lleol neu'r asiantaeth bartner berthnasol nodi bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ddatblygiad.

Mae'r meini prawf ar gyfer cynnal adolygiadau cryno wedi'u nodi yn Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.

Diben yr adolygiad yw nodi unrhyw ddysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Mae'n cynnwys asiantaethau, ymarferwyr a theuluoedd yn ymdrechu ar y cyd i fyfyrion a dysgu o'r hyn sydd wedi digwydd er mwyn gwella arfer yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar atebolrwydd ac nid ar feiusrwydd. Nod yr adolygiad yw cynhyrchu addysg broffesiynol a sefydliadol, yn ogystal â hybu gwelliant o ran

ymarfer amddiffyn plant rhyngasiantaethol yn y dyfodol. (Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016).

Proses Adolygu Ymarfer Plant

Cyfeiriodd Meddyg Penodol ar gyfer Diogelu Plant, Blentyn A er ystyriaeth yr Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant Rhanbarthol ar 20 Mai, 2018. Cytunodd yr Is-grŵp bod yr atgyfeiriad yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Cryno.

Methodoleg

- Cynullwyd Panel Adolygu gyda Chadeirydd.
- Penodwyd dau Adolygydd.
- Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl.
- Datblygwyd llinellau amser gan bob asiantaeth.
- Cynhyrnodd aelodau'r panel grynodedb/dadansoddiad o gyfranogiad pob gwasanaeth.
- Cynhaliwyd cyfweiliad gyda rhieni'r plentyn.
- Gwelwyd y plentyn yn y lleoliad presennol.
- Digwyddiad Dysgu ar gyfer ymarferwyr.
- Cynhyrnodd Adroddiad Adolygu gyda phwyntiau dysgu a'i gyflwyno i'r Panel Adolygu.
- Bu i'r Panel Adolygu gwrdd i gwblhau'r adroddiad.
- Datblygwyd cynllun gweithredu o'r argymhellion.
- Bu i'r Adolygwyr a Chadeirydd y Panel Adolygu gyflwyno'r Adroddiad Adolygu i'r Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant Rhanbarthol a Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.
- Cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Adrodd yn ôl i'r Teulu.
- Cyhoeddi'r Adroddiad ar wefan BDPGC.

Y gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y Panel Adolygu oedd:

- Addysg
- Iechyd
- Yr Heddlu
- Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol

Y Cyfnod Dan Sylw a Pham

Y cyfnod y cytunwyd arno gan y panel oedd cyfnod o ddeuddeg mis o 1 Ionawr, 2017 i 9 Ionawr, 2018. Cytunwyd ar hyn i gael dyddiad beichiogrwydd y Fam nes y dyddiad y cafodd Plentyn A anafiadau parhaol.

Cytunodd y Panel, oherwydd y wybodaeth gyfyngedig ar ffeil yr heddlu, y byddai'r heddlu yn cynnwys gwybodaeth hanesyddol a oedd yn cael ei ystyried i fod yn arwyddocaol i'r achos hwn. Roedd y digwyddiadau hyn yn dyddio'n ôl o 2 Ebrill, 2006 i 9 Ionawr, 2018.

Cytunwyd y cylch gorchwyl yn y Cyfarfod Panel cyntaf a gynhaliwyd ar 24 Mai, 2019; yna cyfunwyd llinellau amser yr asiantaethau i gynhyrchu llinell amser rhyngasiantaethol o ddigwyddiadau allweddol.

Roedd yr adroddiad yn ceisio deall sut roedd systemau amlasiantaethol yn effeithio ar yr achos hwn ac i nodi unrhyw ffactorau a ddylanwadodd ar weithredoedd ymarferwyr ac asiantaethau. Roedd y panel yn cydnabod arferion da, cyfleoedd ar gyfer addysg rhyngasiantaethol a nodi gwelliannau i ymarfer.

Amgylchiadau a Arweiniodd at yr Adolygiad

Aeth Plentyn A, a oedd yn 10 mis oed, i Adran Damweiniau Brys Ysbyty Cyffredinol Dosbarth mewn ambiwlans am 10.30am ar 9 Ionawr, 2018, gyda thystiolaeth o anaf i'r pen a oedd yn fygythiad i fywyd. Roedd Plentyn A mewn coma gydag ymateb anhafal yng nghannwyll y llygad, ochr chwith y corff yn anystwyth, y ddau yn arwyddion o anaf difrifol i'r pen a niwed i'r ymennydd.

Rhoddodd Fam hanes Plentyn A yn disgyn allan o'r crud. Dywedodd y llystad bod Plentyn A wedi disgyn allan o'r bownsiwr. Roedd staff yn pryderu bod anghysondebau yn yr hanes a roddwyd am yr anafiadau; nid oedd yr hanesion yn gyson gyda difrifoldeb yr anaf a welwyd. Derbyniodd Plentyn A gefnogaeth bywyd ac fe'i drosglwyddwyd i'r uned gofal dwys pediatriig am driniaeth ac archwiliad pellach. Asesodd staff meddygol bod yr anafiadau yn gyson gyda thrawma camdriniol i'r pen, ac yn anaf nad oedd yn ddamweiniol.

Roedd anafiadau yn cynnwys:

- Nifer o friwiau heb esboniad i'r wyneb ac i'r fraich
- Crafiadau tu mewn i'r wefus isaf
- Gwaedlif isniwral dwyochrog (gwaedlif ar yr ymennydd)
- Anaf Hypocsig-ischaemig i'r ymennydd (niwed i'r ymennydd)
- Gwaedlifau retinau amlihaenol sylweddol ar ddwy ochr (gwaed yng nghefn y llygad)
- Torasgwrn sy'n gwella ar y tibia chwith (gwaelod y goes)

Mae cofnodion lechyd y Plentyn yn nodi bod gan Blentyn A iechyd corfforol da cyn y digwyddiad ac roedd ei datblygiad yn addas i'r oedran. Oherwydd yr anaf y cafodd Plentyn A, mae tystiolaeth o niwed difrifol i'r ymennydd, niwed difrifol i'r golwg ac oedi datblygiadol difrifol, sy'n debygol o barhau gydol oes. Ar adeg yr atgyfeiriad i'r Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant, roedd y Fam a'i phartner wedi cael eu cyhuddo o Niwed Corfforol Difrifol a cheisio gwyrdroi cwrs cyfiawnder. Serch hynny, cafodd y cyhuddiadau eu gollwng yn erbyn y Fam, a cafodd y partner ei gyhuddo o niwed corfforol difrifol.

Hanes Teuluoedd y Plentyn a Gwybodaeth Gyd-destunol

Plentyn A oedd y plentyn ieuaf mewn grŵp o bum brawd a chwaer a oedd yn byw gyda'u Mam a'u Tad. Roedd gan y plant iechyd corfforol da, ac roedd gan un plentyn hanes o bryderon lleferydd ac iaith, ac roedd gan blentyn arall broblemau ymddygiad; nid oedd gan un plentyn ddiagnosis o unrhyw gyflwr meddygol nac anabledd. Roedd gweithwyr proffesiynol yn disgrifio'r teuluol o gael hanes o bryderon esgeulustod lefel isel.

Mae'r llinell amser yn nodi cyflwr y cartref saith gwaith. Disgrifiodd gweithwyr proffesiynol a pherson ifanc a ymwelodd â'r cartref fel 'anniben, arogl fel troeth, blêr, arogl canabis, y gegin mewn cyflwr gwael ac yn anaddas ar gyfer paratoi bwyd/prydau yn hylendid, yr ystafell ymolchi yn cynnwys cyfarpar y gegin, gan nodi nad oedd yn cael ei defnyddio i ymolchi'r plant. Mae Howarth (2007) yn nodi hyn fel esgeulustod corfforol. Dangosodd y rhieni ychydig o welliannau bach, ond nid oedd y newid gofynnol yn gyson.

Roedd yr ysgol wedi cofnodi Achos i Bryderu o fewn eu system addysg eu hunain; roedd y rhain yn cynnwys pryderon dros achosion parhaus o lau pen, gwisgo dillad oedd yn rhy fawr, a'r plant yn drewi neu'n flêr.

Roedd yr ysgol wedi nodi mewn Digwyddiad Dysgu y byddai pethau'n gwella am ychydig ac yna'n dirywio. Amlygodd yr ysgol gyfathrebu cadarnhaol gyda'r tad a oedd llawer mwy ymatebol i'w pryderon ac y byddai'n cysylltu gyda'r ysgol i drafod y pryderon a godwyd.

Adroddodd yr ysgol bod gan y plant ganran presenoldeb da, a byddai'r rhieni'n arfer dod i'r

cyngerdd Nadolig.

Nid oedd y plant wedi bod yn agored i Gynllun Amddiffyn Plant neu Blentyn mewn Angen / Cynllun Gofal a Chefnogaeth. Roedd dadansoddiad yr asiantaeth yn dangos bod Gwasanaethau Plant wedi derbyn wyth atgyfeiriad rhwng 2010 a chychwyn y llinell amser ar 01/01/2017. Arweiniodd un atgyfeiriad at ymholiad Adran 47.

Ni rannwyd manylion o'r ymateb / gweithredoedd yn ymwneud â'r saith atgyfeiriad arall gydag adolygwyr, fodd bynnag mae dadansoddiad yr asiantaeth yn dangos bod y rhan fwyaf o bryderon yn adroddiadau gan gymdogion, ac ar ôl ymchwiliad, nid oeddent wedi cael eu profi. Roedd yr honiadau a'r adroddiadau hyn yn cael eu hystyried yn faleisus.

Derbyniodd Gwasanaethau Plant bedwar atgyfeiriad/cyswllt gan weithwyr proffesiynol yn ystod cyfnod y llinell amser; serch hynny roedd dau yn ymwneud â'r un digwyddiad, yr oedd Gwasanaethau Plant wedi ymateb iddynt drwy gynnal tri ymweliad dyletswydd i'r teulu. Nododd Gwasanaethau Plant nad oedd pryderon diogelu yn ystod yr ymweliadau dyletswydd.

Nid oedd gan y teulu llawer o gyswllt gyda'r heddlu yn ystod cyfnod r adolygiad hwn; aeth yr heddlu i ymweld â'r teulu pum gwaith yn ystod y llinell amser, gyda dau gofnod o wybodaeth bellach ar ffeil yr heddlu.

Roedd gan y Fam gyswllt sylweddol gyda gweithwyr iechyd proffesiynol, yn hanesyddol gyda'r plant hŷn, ac yn achos Plentyn A. Cyflwynwyd y Fam i'r Gwasanaethau Bydwreigiaeth ar wythnos 13 ei chyfnod beichiogrwydd, serch hynny roedd ei sgan dyddio yn dangos ei bod hi ar wythnos 19 ei chyfnod beichiogrwydd.

Ni chwblhaodd y Fydwraig na'r Ymwelydd lechyd Asesiad lechyd Cyn Geni, oherwydd nid oeddent yn ystyried bod unrhyw ffactorau risg a oedd yn nodi'r angen am Asesiad lechyd Cyn Geni. Fodd bynnag, mae Canllawiau Cwblhau Asesiad lechyd Cyn Geni gan Fydwraig neu Ymwelydd lechyd yn amodi i ystyried Asesiad pan mae beichiogrwydd yn cael ei gofnodi'n hwyr (15-20 wythnos).

Nododd dadansoddiad asiantaeth bod apwyntiadau wedi cael eu methu, ac o ganlyniad roedd oedi i rai agweddau o ofal oherwydd nad oedd wedi mynychu. Nid oedd y fydwraig na'r ymwelydd iechyd yn ystyried hyn i fod yn ffactor risg ar y pryd yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael iddynt.

Mae'r llinell amser yn dangos dyddiau cyn i Blentyn A gael anafiadau, daeth y Fam â'i pherthynas â Thad y plant i ben gan ddweud wrth yr Ymwelydd lechyd ei bod wedi gadael cartref ei theulu gan gymryd y plant gyda hi.

Mae'n aneglur a oedd y Fam wedi gadael cartref y teulu a dychwelyd, oherwydd roedd y digwyddiad yn ymwneud â Phlentyn A wedi digwydd yng nghartref y teulu. Nid yw'n hysbys 'chwaith pryd dechreuodd y Fam ei pherthynas gyda'r cyflawnwr honedig. Nid oedd modd i'r adolygwyr gael dealltwriaeth glir o hyn o'r cyfweiliad gyda'r rhieni.

O'r wybodaeth a rannwyd gyda gweithwyr proffesiynol yn ystod y Digwyddiad Dysgu, efallai bod y cyflawnwr honedig wedi mynd i berthynas gyda'r Fam tua dau fis cyn y digwyddiad.

Ar adeg yr anaf, adroddodd y Fam ei bod yn ofalwr sengl ar gyfer ei phump o blant, a disgrifiodd y tad fel bod yn rhan fawr o fywyd y plant yn ddyddiol.

Ymgysylltiad gyda'r Teulu, y Plentyn a'r Gofalwr Maeth

Barn y Rhieni

Ysgrifennodd Gadeirydd yr Adolygiad Ymarfer Plant at y rhieni ar wahân i gynnig apwyntiad i gwrdd â'r adolygwyr. Cysylltodd y Fam gyda'r adolygwr dros y ffôn i drefnu amser a dyddiad i gwrdd, oherwydd nad oedd yn gallu ar y dyddiad a gynhigiwyd. Cytunwyd ar ddyddiad, a

gofynnodd y Fam a oedd modd i'r adolygwyr gwrdd â'r rhieni gyda'i gilydd.

Cyn cwrdd â rhieni Plentyn A, bu'r adolygwyr yn paratoi cylch gorchwyl a chwestiynau. Daeth rhieni Plentyn A, ac fe amlinellwyd pwrpas yr adolygiad iddynt.

Gofynnodd yr adolygwyr i'r Fam os hoffai ddweud wrthynt am ei phlant. Siaradodd y Fam am frodyr a chwiorydd Plentyn A, gan rannu eu diddordebau, ond ni chyfeiriodd at Blentyn A. Ni rannodd y Fam unrhyw wybodaeth am ei hamser gyda Phlentyn A.

Cadarnhaodd y Fam nad yw hi mewn perthynas â Thad y plentyn bellach, a'i bod yn byw ar ei phen ei hun, ond ei bod yn parhau i fod mewn perthynas gyda chyflawnwr honedig anafiadau Plentyn A. Rhannodd y Fam ei bod wedi bod mewn perthynas gyda'r cyflawnwr honedig ers dwy flynedd – dwy flynedd a hanner.

Yn dilyn ei gwahaniad oddi wrth Tad y plant, adroddodd y Fam bod y plant wedi parhau i gael cyswllt rheolaidd gydag o, gan ei fod yn parhau i fod yn rhan fawr o'r teulu. Adroddodd y Fam y byddai'r cyflawnwr honedig yn ymweld â'r eiddo unwaith roedd y plant yn eu gwllâu yn unig, ac nid oedd gan y plant gyswllt ag o.

Cafodd y Rhieni gyfle i rannu eu barn ar y gefnogaeth y derbyniwyd gan y gwasanaethau:

Wrth drafod cyfranogiad yr heddlu, dywedodd y Fam y byddai'r cymdogion yn aml yn cysylltu â'r heddlu i adrodd eu bod yn ffraeo ac yn gweiddi. Nododd y Fam nad oedd camau pellach wedi cael eu cymryd yn dilyn yr adroddiadau hyn.

Adroddodd y Fam bod ganddi berthynas da gyda'i Ymwelydd lechyd, ac fe nododd ei bod yn cynnig llawer mwy o gymorth na'r Gwasanaethau Plant, gan esbonio'r broses llys ers i'r plant fod dan ofal. Adroddodd y Fam bod yr Ymwelydd lechyd yn weithiwr proffesiynol cefnogol sy'n helpu'r teulu.

Trafododd y Fam nad oedd hi'n ymwybodol bod yr ysgol wedi penodi nyrs ysgol nes bod y plant wedi cael eu hanfon gartref oherwydd llau pen. Nododd y Fam nad oedd y nyrs ysgol wedi rhannu unrhyw bryderon gan yr ysgol gyda hi.

Dywedodd y Fam wrth yr Adolygwyr bod gan yr ysgol bryderon am y plant yn dod i'r ysgol yn hwyr, yn fudr, gyda dillad tamp ar brydiau. Mynegodd y Fam nad oedd hi'n ymwybodol o'r pryderon hyn nes i Blentyn A gael ei roi dan ofal yr Awdurdod Lleol. Roedd y Fam yn teimlo y dylai'r ysgol fod wedi adrodd eu pryderon ar y cychwyn. Dywedodd y Fam nad oedd hi wedi derbyn unrhyw lythyron yn ei gwahodd i'r ysgol i drafod y materion. Roedd y Fam yn cydnabod bod dillad y plant yn damp o bryd i'w gilydd, oherwydd nid oeddent wedi sychu mewn pryd ar gyfer yr ysgol. Cymeradwyodd y Fam yr ysgol am roi cefnogaeth lleferydd ac iaith i ddau o'i phlant.

Rhannodd y Fam wybodaeth ynglŷn ag adegau pan ddaeth gweithwyr cymdeithasol i ymweld â'r cartref. Ni chafodd ei hysbysu o'r rheswm dros yr ymweliad, ac nid oedd yn deall yn llawn beth oedd y pryderon. Dywedodd y Fam y byddai'r gweithwyr cymdeithasol yn gwirio bod gan y plant dillad gwely, ac fe nododd na gynhaliwyd unrhyw asesiadau eraill. Gofynnodd adolygwr i'r Fam, yn ei thyb hi, beth allai'r gweithwyr proffesiynol fod wedi ei wneud yn well, atebodd y Fam gyda 'mwy o help', a phan ofynnwyd iddi sut y gallan fod wedi helpu mwy, atebodd gyda 'clirio'r cartref a helpu gyda budd-daliadau'. Dywedodd y Fam nad oedd y gweithwyr proffesiynol wedi dweud wrthi beth oedd y broblem ac o ganlyniad nid oedd hi'n ymwybodol o'r rhesymau dros yr ymweliad. Ni soniodd y Fam am y camddefnyddio sylweddau yn y cartref, a bod yr asiantaethau wedi codi hyn fel pryder. Disgrifiodd y Fam y cartref fel 'Tŷ Gwylt'.

Roedd y Tad yn dawel yn ystod y cyfarfod, gyda'r Fam yn cyfrannu at fwyafrif y drafodaeth. Serch hynny, rannodd y Tad nad oedd yn cofio cyfranogiad gweithwyr cymdeithasol, a nododd ei fod yn aml i ffwrdd o'i gartref yn gweithio mewn ffair, neu'n gweithio oriau hir. Disgrifiodd y Tad y Fam fel Mam sengl, oherwydd roedd yn aml i ffwrdd o'r cartref.

Gofalwr Maeth a'r Plentyn

Hwylusodd y Gweithwyr Cymdeithasol gyfarfod gyda Phlentyn 'A' yn y lleoliad maeth; ac roedd y ddau Adolygwr wrth eu boddau o gael cyfarfod Plentyn A a'i gofalwr maeth i weld y cynnydd a wnaed dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Rhannodd y gofalwr maeth pa mor dda roedd Plentyn A wedi datblygu; roedd Plentyn A wedi adennill ei gallu i godi ei phen heb gefnogaeth, yn gallu eistedd i fyny gydag ychydig o gefnogaeth, ac yn mwynhau rholio ar y llawr.

Roedd gan Plentyn A nam cerebrol sylweddol ar y golwg pan ddaeth dan ofal maeth yr Awdurdod Lleol gyntaf. Gydag ymroddiad ac ymrwymiad ei gofalwyr maeth, roedd hi wedi adennill ychydig o'i golwg gyda defnydd pabell liwiau a goleuadau i symbylu ei golwg. Mae Plentyn A yn gwenu ac yn clebran yn ei ffordd ei hun, ac yn dechrau datblygu sgiliau iaith drwy ddweud 'dadda, hiya, ta-ta, yes a no.' Mae hi'n mwynhau chwarae gyda'i theganau ac yn rhyngweithio gyda'r holl deulu. Dywedodd y Gofalwr Maeth bod Plentyn A yn ddatblygol debyg i blentyn 8-10 mis; roedd Plentyn A yn 2 oed ac 11 mis pan aeth adolygwyr i gwrdd â Phlentyn A yn y lleoliad maeth.

Mae Plentyn A yn mynd i'r Ganolfan Datblygiad Plant unwaith yr wythnos gan dderbyn ffisiotherapi wythnosol, a sesiynau peintio gyda phlant eraill. Mae Plentyn A yn mynd i sesiynau cyn ysgol, tri bore'r wythnos hefyd, ac yn aelod gwerthfawr o'r dosbarth, ac mae hi wrth ei bodd yno. Mae arweinwyr y cylch chwarae yn sicrhau bod Plentyn A yn cael yr un cyfleoedd â'r plant eraill, ac mae ei sgiliau cymdeithasol wedi gwella ers mynd yno. Mae Plentyn A nawr y gallu bwyta tameidiau o fwyd llwy, ac wedi adennill ei gallu i sugno, ac mae hi'n gallu yfed drwy'r geg.

Dywedodd y Gofalwr Maeth bod Plentyn A yn blentyn gwych, hapus sy'n cael llawer o gariad, yn benderfynol iawn, a mentraf i ddweud, ychydig o agwedd. Mae gennym dîm cymorth gwych sydd wedi gweithio gyda Phlentyn A, ac wedi ein cefnogi i sicrhau bod anghenion Plentyn A yn cael eu diwallu.

Digwyddiad Dysgu

Cynhaliwyd y Digwyddiad Dysgu ar 24 Ionawr, 2020. Hwyluswyd y digwyddiad gan Gadeirydd Panel, a dau Adolygwr Annibynnol. Estynnwyd gwahoddiad i Ymarferwyr Allweddol oedd ynghlwm â'r achos yn uniongyrchol i'r Digwyddiad Dysgu, a gefnogwyd gan ymarferwyr i ystyried eu cyfranogiad, ymarfer, asesiadau a phrosesau gwneud penderfyniadau.

Cafwyd cynrychiolaeth gan chwe gweithiwr proffesiynol yn y digwyddiad dysgu:

- Addysg
- Iechyd
- Yr Heddlu
- Gwasanaethau Cymdeithasol

Amlygodd y Digwyddiad Dysgu arferion da, a oedd yn cynnwys cydweithio rhwng yr ysgol a nyrs yr ysgol, cydweithio rhwng Gwasanaethau Plant, nyrs yr ysgol a'r heddlu. Roedd pob gweithiwr gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r teulu yn weithwyr profiadol, ac adroddwyd ar arferion da rhwng yr Ymwelydd Iechyd a'r Bydwraig Gymunedol, drwy gwrdd yn anffurfiol i drafod yr achos.

Roedd y Digwyddiad Dysgu hefyd yn cydnabod y newidiadau a weithredwyd i wella arferion ers y digwyddiad. Adroddodd Addysg eu bod wedi gweithredu newid i arferion yn sgil yr achos hwn, gan gyflwyno system gofnodi gadarn. Mae hyn yn sicrhau bod gan bob aelod o staff fynediad i bryderon diogelu a ddogfennwyd, sy'n cyflwyno gwybodaeth i'r Arweinydd Diogelu er mwyn ymateb yn brydlon.

Adroddodd Iechyd bod newidiadau i'w Hasesiadau Cyn Geni a dogfennaeth rhannu gwybodaeth yn dilyn argymhellion Adolygiad Ymarfer Plant blaenorol. Rhannodd Iechyd sut oedd rhai

newidiadau i ymarfer wedi cyfyngu ar eu gallu i weld teuluoedd yn eu cartrefi eu hunain (Bydwragedd Cymunedol). Darparodd Fydwraig Gymunedol ac Ymwelydd Iechyd wybodaeth graff yn y Digwyddiad Dysgu. Fe rannwyd, nid oeddent wedi nodi ar unrhyw adeg unrhyw risgiau cyn y cafodd Blentyn A anafiadau.

Cydnabu'r Digwyddiad Dysgu werth cronoleg amlasiantaethol, gan nad oedd rhai o'r gweithwyr proffesiynol a oedd ynghlwm â'r teulu yn ymwybodol o ddarnau o wybodaeth o fewn y gronoleg.

Yn ystod y Digwyddiad Dysgu, amlygodd Gwasanaethau Plant a'r Heddlu ddefnydd canabis o'r llinell amser fel thema, a thrafodwyd ar ba bwynt y mae hyn yn dod yn bryder diogelu. Nid oedd Gwasanaethau Plant yn ystyried hyn yn bryder sylweddol yn eu cyfranogiad gyda'r teulu.

Roedd y Digwyddiad Dysgu wedi galluogi adolygwyr i gael cipolwg ehangach i fywyd y teulu drwy gysylltu'r wybodaeth gan y rhieni a'r gweithwyr proffesiynol. Rhoddodd farn gytbwys y rhieni a safbwynt gweithwyr proffesiynol ddealltwriaeth i'r adolygwyr o'r heriau y cafodd y gweithwyr proffesiynol wrth asesu'r risgiau.

Ymarfer a Dysgu Sefydliadol

Nodwch bob pwynt dysgu unigol yn sgil yr achos hwn (gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol) ac amlinelliad bras o'r amgylchiadau perthnasol

Roedd dull adnabod yr ymarfer a'r dysgu sefydliadol wedi eu cael gan y canlynol:

- Cynhyrchiant llinell amser amlasiantaethol cyfun a dadansoddiad yr asiantaeth
- Digwyddiad Dysgu
- Safbwynt y Rhieni
- Trafodaethau yng nghyfarfodydd y Panel Adolygu
- Trafodaethau aelodau'r panel gydag ymarferwyr ynghlwm â'r adolygiad
- Dadansoddiad Cadeiryddion ac Adolygwyr Annibynnol
- Ymarfer seiliedig ar dystiolaeth

Amlygodd yr adolygiad arferion da ynghyd ag addysg drwy gydol y broses. Mae'n bwysig nodi bod yr addysg a nodwyd wedi bod â buddion adlewyrchiad ac edrych yn ôl.

Beth Weithiodd yn Dda?

Roedd tystiolaeth o fewn y llinell amser bod yr Heddlu wedi ymateb i bryderon a godwyd mewn perthynas â'r plant, ac wedi cynnal ymweliadau i'r eiddo pan fo'r angen. Roedd tystiolaeth o gyfathrebu da rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant, drwy rannu CID 16 gyda Gwasanaethau Plant pan roeddent yn gysylltiedig â'r teulu. Dangosodd dadansoddiad asiantaethau yr Heddlu bod cydweithio da gydag asiantaethau partner.

Roedd y llinell amser yn adlewyrchu bod yr ysgol wedi cofnodi pryderon o fewn cofnod mewnol addysg Achos i Bryderu, ac wedi ymgysylltu gyda nyrs yr ysgol i ddarparu cefnogaeth gyda materion parhaus yn ymwneud â hylendid y plant. Yn gadarnhaol, roedd yr ysgol wedi cysylltu â'r rhieni i'w gwahodd nhw i mewn i drafod y pryderon hyn, er bod y rhieni yn gwadu hyn, mae'r ysgol yn adrodd eu bod wedi cynnig sawl cyfarfod. Roedd y llinell amser yn dangos bod yr ysgol wedi cynnig atgyfeiriad i'r Fam i'r Tîm o Amgylch y Teulu am rhagor o gefnogaeth hefyd, a wrthododd y Fam. Yn gadarnhaol, darparodd yr ysgol gefnogaeth ychwanegol i ddau blentyn i'w helpu gyda datblygiad eu sgiliau cyfathrebu.

O fewn y llinell amser, roedd tystiolaeth o gydweithio da rhwng asiantaethau, a chynhaliodd y Gwasanaethau Plant ymweliad ar y cyd gyda nyrs yr ysgol, gan ddiweddarau nyrs yr ysgol yn dilyn ymweliad dilynol. Roedd y Gwasanaethau Plant wedi cysylltu a'r Ymwelydd Iechyd hefyd i sicrhau a

oedd gan iechyd unrhyw bryderon am y teulu.

Nododd Gwasanaethau Plant, yn nadansoddiad yr asiantaeth, bod gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu wedi asesu pob atgyfeiriad yn briodol. Ymatebodd Gwasanaethau Plant i bob atgyfeiriad o fewn terfynau amser statudol a sicrhawyd bod staff profiadol a chymwys wedi cynnal ymweliadau dyletswydd i'r cartref.

Amlygodd y llinell amser gyfathrebu da rhwng yr ymwelydd iechyd a nyrsys ysgolion pan nodwyd pryderon, a chyflwynwyd un atgyfeiriad diogelu plant i'r Gwasanaethau Plant. Roedd tystiolaeth o lechyd yn ymgysylltu gyda'r Gwasanaethau Plant, gan basio pryderon ymlaen a gwneud cais am ddiweddariadau o atgyfeiriadau. Cafodd Iechyd fynediad i Oruchwyliaeth Diogelu ar gyfer cefnogaeth ac addysg broffesiynol mewn perthynas â'r achos hwn. Rhannodd yr Ymwelydd Iechyd a nyrs yr ysgol sut maent yn cyfarfod yn anffurfiol i drafod achosion ar y cyd. Nododd ddadansoddiad yr asiantaeth iechyd bod y cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol yn faes arfer da ac addysg ar gyfer y dyfodol. Gan amlygu pwysigrwydd rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr/gweithwyr proffesiynol perthnasol a oedd yn gweithio gyda'r teulu. Mae enghreifftiau o gyfathrebu cadarnhaol amlasiantaethol, rhwng iechyd, addysg a'r awdurdod leol o fewn cofnodion iechyd y plentyn.

Mae'r llinell amser yn dangos, yn ystod y beichiogrwydd, fe gynhigiodd iechyd gefnogaeth i'r Fam gyda stopio ysmegu. Daeth dadansoddiad asiantaeth, a luniwyd gan aelod o'r panel bydwreigiaeth, arferion da mewn perthynas â'r Ymholiad Cyffredinol Cam-Drin Domestig (2018) a gwblhawyd yn unol â chanllawiau sefydliadol a'i gofnodi'n briodol yng nghofnodion y fydwraig, ac ni ddatgelodd y Fam unrhyw bryderon.

Fe aeth y Fam â Phlentyn A am ei brechiadau plentyndod arferol ym Mhractis y Meddyg Teulu. Fe gafodd Plentyn A ei brechiadau ar yr oedran a'r amser cywir, ac fe roddwyd y nifer cywir o ddosau i sicrhau bod Plentyn A wedi'i hamddiffyn yn llawn. Mae brechiadau yn cael eu hargymell ar oedrannau penodol yn seiliedig ar astudiaethau sy'n dangos pryd mae'r risg o wahanol glefydon ar ei uchaf i blant. Ni amlygwyd unrhyw bryderon diogelu yn y llinell amser gan y practis meddyg teulu.

Gwella Systemau ac Ymarfer

Er mwyn hyrwyddo'r dysgu yn sgil yr achos hwn mae'r adolygiad wedi nodi'r camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd a'i asiantaethau yn ogystal â'r canlyniadau gwelliant a ragwelir:-

Themâu Ymddangosol a Dysgu

Llais y Plentyn

Mae'r llinell amser yn dangos bron dim tystiolaeth bod gweithwyr proffesiynol wedi ystyried llais y plentyn, nac ychwaith yn darparu sicrwydd bod gweithwyr proffesiynol wedi cofnodi dymuniadau a theimladau'r plant yn eu hymarfer. Yn ystod y Digwyddiad Dysgu, roedd ymarferwyr yn gallu darparu manylion i'r adolygwyr o sut cafodd y plant ymweliadau yn y cartref, ond nid oedd dealltwriaeth o brofiadau bywyd y plant, ac roedd llais y plentyn yn absennol.

Roedd methiant i gofnodi llais y plentyn wedi bod yn thema ailadroddus o fewn archwiliadau ac adolygiadau, yn ogystal â methiant i gofnodi adroddiad naratif o brofiadau'r plentyn. Canfu adroddiad thematig gan y Swyddfa Safonau Mewn Addysg bod anghenion y plentyn yn aml yn cael eu esgeuluso oherwydd bod ymarferwyr yn canolbwyntio'n ormodol ar y rhieni. Ymysg ei ganfyddiadau allweddol oedd, nid oedd y plentyn yn cael ei weld yn aml gan weithwyr proffesiynol, nac ychwaith yn cael eu holi am eu barn a'u teimladau (Swyddfa Safonau Mewn Addysg, 2011).

Nododd y llinell amser bod gweithwyr cymdeithasol yn arsylwi bod y plant yn hapus ac yn

siaradus; fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth bod ymarferwyr wedi siarad â'r plant yn unigol, nac unrhyw fanylion am eu barn. Pwysleisiodd y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC, 2015) bod brodyr a chwiorydd plentyn mewn perygl yn gallu rhoi cioplwg o ddeinameg teulu a'r bobl bwysig yn eu bywydau. Nid oedd y llinell amser yn cynnig cipolwg i farn y plant, ond yn ystod y Digwyddiad Dysgu, rhannodd yr ysgol nad oedd y plant wedi codi unrhyw bryderon am eu bywydau yn y cartref, nac unrhyw ddatgeliadau.

Canfu gwaith ymchwil gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, drwy archwilio ugain Adolygiad Ymarfer Plant, bod lleisiau plant neu eu safbwynt ar goll weithiau, ac/neu nid yn ganolog i ymarfer bob tro. Gan gydnabod bod trafodaethau gyda'r plant wedi cael eu cynnal, ond roedd eu rhieni yn bresennol, na fyddai'n rhoi lle diogel iddynt ddatgelu eu profiadau (Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru, 2019).

Cyfathrebu rhwng Asiantaethau

Mae rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn tanategu gweithio integredig ac yn elfen hollbwysig o ymyrraeth gynnar a diogelu. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod cadw plant yn ddiogel rhag niwed yn gofyn bod gweithwyr proffesiynol ac eraill i rannu gwybodaeth: am iechyd a datblygiad y plentyn, unrhyw gysylltiad i niwed, rhiant sydd angen cymorth efallai, neu nad ydynt yn gallu gofalu am blentyn yn briodol ac yn ddiogel, neu'r sawl sy'n cyflwyno perygl o niwed i blentyn. Yn aml, pan mae gwybodaeth yn cael ei rhannu gan nifer o ffynonellau a'i rhoi ynghyd yn unig y mae'n dod yn glir os yw plentyn mewn perygl o niwed.

Er bod tystiolaeth o gyfathrebu da rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant, roedd un digwyddiad lle roedd gwybodaeth allweddol ar goll o adroddiad yr Heddlu. Nododd yr adroddiad bryderon ynglŷn â chanabis yn y cartref, ac nid oedd yn cydnabod Plentyn A. Cododd hyn faterion ynghylch diffyg cyfathrebu rhwng yr Heddlu a Gwasanaethau Plant yn nhermau'r risgiau a nodwyd. Roedd y llinell amser yn dangos bod Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) wedi cynnal ymweliad i'r teulu oherwydd bod un o'r plant yn taflu cerrig at dŷ cymydog. Cofnododd yr heddlu "bryder am ddiogelwch oherwydd yr arogl canabis oedd tu mewn a thu allan i'r cartref". Mae'r llinell amser yn dangos bod Gwasanaethau Plant, er yn cydnabod bod arogl cryf o ganabis yn yr eiddo, a bod y Tad yn ymddangos i fod dan ddylanwad canabis, eu bod yn disgrifio'r prif bryder i fod "ymddygiad gwrthgymdeithasol y plant".

Roedd diffyg cyfathrebu a gwahanol farn ar risg yn amlwg eto yn y llinell amser, pan gysylltodd nyrs yr ysgol â'r Gwasanaethau Plant i rannu pryderon am arogl canabis yn y cartref. Cynghorodd Gwasanaethau Plant nyrs yr ysgol, bod yr achos wedi cau i'r gwasanaethau plant, ac nid oedd angen camau pellach. Mae'n aneglur a oedd nyrs yr ysgol yn meddwl, pan cysylltodd hi â'r Gwasanaethau Plant, ei fod yn 'atgyfeiriad' i'r adran. Mae gwaith ymchwil yn dangos dryswch ynghylch 'atgyfeiriadau' a 'chyswllt', a gall camddealltwriaeth o'r broses atgyfeirio ymysg rhai gweithwyr proffesiynol arwain at yr asiantaethau atgyfeirio yn meddwl eu bod yn gwneud atgyfeiriad neu'n gwneud cais am gamau gweithredu, ond mae gofal cymdeithasol plant yn meddwl eu bod yn derbyn gwybodaeth i'w chofnodi'n unig (SCIE, 2016). Ni gymerodd nyrs yr ysgol gamau dilynol ar ôl ei galwad ffôn gydag atgyfeiriad ysgrifenedig, fel sy'n ofynnol gydag atgyfeiriad ffurfiol gan weithiwr proffesiynol. Dyma'r pedwerydd cofnod o ddefnydd canabis yn y cartref, gyda nyrs yr ysgol yn codi pryderon am honiadau bod y Fam yn gwerthu canabis o'i chartref yn gynharach yn y mis.

Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod ymarferwyr o fewn gwasanaethau cyffredinol yn gallu bod yn ansicr ynghylch pryd mae angen gwneud rhywbeth, oherwydd ddiffyg eglurder ar 'drothwyon' ar gyfer ymyrraeth gofal cymdeithasol a phrofiad o atgyfeiriadau yn cael eu gwthio nôl (Daniel *et al*, 2011). Yn ystod y Digwyddiad Dysgu, rhannodd yr Ymwelydd lechyd ei bod wedi cysylltu â'r Gwasanaethau Plant yn y gorffennol yn ymwneud â chyflwr y cartref ac wedi nodi nad oedd hyn yn cael ei ystyried fel pryder diogelu. Efallai bod hyn yn ddigwyddiad pellach o weithiwr proffesiynol yn credu eu bod wedi gwneud atgyfeiriad, pan mewn gwirionedd, roeddent wedi

cysylltu a chofnodwyd y wybodaeth.

O fewn y llinell amser, roedd diffyg tystiolaeth o gyfathrebu rhwng yr ysgol a'r Gwasanaethau Plant, ac ar un achlysur, cynhaliodd y Gwasanaethau Plant ymweliad i'r cartref yr un diwrnod â phan gofnododd yr ysgol Achos i Bryderu. Adroddodd yr ysgol bod y plentyn hynaf yn parhau i grafu ei ben, ac roedd ei hylendid cyffredinol yn edrych yn arbennig o wael ar y diwrnod hwnnw. Dylai dadansoddiad asiantaeth o ysgol sy'n darparu addysg barhau i atgyfeirio i'r Gwasanaethau Plant os yw pryderon o esgeulustod yn rhai parhaus.

Cadw Cofnodion

Mae'r NSPCC yn nodi y byddai cofnodion cywir o unrhyw bryderon a godwyd am y plentyn a'r teulu yn helpu i nodi patrymau ymddygiad, a all fod yn arwydd bod y plentyn mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Yn ystod y Digwyddiad Dysgu, roedd ymarferwyr lechyd yn gwerthfawrogi'r gronoleg amlasiantaethol, a rhannwyd nad oeddent yn ymwybodol o'r holl wybodaeth ynddi. Roedd Adroddiad Laming (2003) yn hyrwyddo'r angen am gronoleg fanwl o ddigwyddiadau'r gorffennol. Nododd ddadansoddiad asiantaeth lechyd yr angen i ddatblygu cronoleg o gyswllt i fod ar flaen cofnodion iechyd plentyn i amlygu'r nifer o gysylltiadau, y nifer o gysylltiadau a fethwyd, methiant i fynd i apwyntiadau iechyd ar y cyd gyda'r Polisi 'Ni Ddaethpwyd'.

Nodwyd hefyd gan lechyd, ar gyfer addysg yn y dyfodol, byddai'n werthfawr cofnodi pwy oedd yn mynd i apwyntiadau gyda'r Fam e.e. y cariad, y tad neu'r partner. Cytunwyd pob asiantaeth bod angen i bob gwasanaeth sy'n darparu apwyntiadau i rieni dystiolaethu'r wybodaeth hon.

Ar y ffurflen 'Cadarnhad o Feichiogrwydd Bydwreigiaeth i Ymwelydd lechyd ac Asesiad Holistaidd' nid oedd yr adran cyfranogiad gweithwyr proffesiynol/asiantaeth wedi cael ei chwblhau'n llawn, ac o ganlyniad nid oedd gweithwyr proffesiynol eraill wedi derbyn ymgynghoriad, neu os oeddent, nid oedd unrhyw dystiolaeth o hynny.

Dylai cofnodion iechyd y plentyn nodi Nyrs yr Ysgol a'r Ymwelydd lechyd fel deiliaid llwyth achosion penodedig ar gyfer y teulu a'u cysylltu am ragor o wybodaeth. Byddai casglu'r wybodaeth ychwanegol hon wedi gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth a oedd angen atgyfeiriad Asesiad lechyd Cyn Geni. O'r wybodaeth oedd ar gael i adolygwyr, ni chafwyd ei gofnodi pam nad oedd Asesiad lechyd Cyn Geni yn cael ei ystyried yn angenrheidiol. Mae Adolygiad yn 2019 o'r canllawiau ar gyfer cwblhau Asesiad lechyd Cyn Geni yn dilyn argymhellion o Adolygiad Ymarfer Plant sydd nawr yn darparu eglurder mewn perthynas â'r meini prawf ar gyfer Asesiad lechyd Cyn Geni. Nododd dadansoddiad asiantaeth bryderon ynghylch apwyntiadau yn cael methu, ac o ganlyniad roedd oedi yn rhai agweddau o ofal cynenedigol oherwydd nad oedd y Fam wedi mynychu. Nid yw canllawiau Asesiad lechyd Cyn Geni yn cyfeirio'n benodol at fethu apwyntiadau, ond mae'n amlinellu ymddygiad neu amgylchiadau darpar rieni yn ystod beichiogrwydd a fyddai'n dangos a ydynt yn debygol o beidio diogelu neu ofalu am eu babi'n briodol i ystyried Asesiad lechyd Cyn Geni (2017). Mae gan Gyfarwyddiaeth Merched Weithdrefnau Gweithredu Safonol: Mae 'Trefniadau Dilynol ar gyfer Merched nad ydynt yn Mynd i Apwyntiadau Cynenedigol ac i Ferched a/neu Fabis Newydd Anedig pan nad yw mynediad wedi cael ei sefydlu yn y cyfnod ôl-enedigol' yn cynghori bydwagedd a chlinigau sy'n cael eu harwain gan feddyg ymgynghorol i drafod gyda Bydwagedd Diogelu a phryderon mewn perthynas â pheidio mynd i apwyntiadau. Mae'r llinell amser yn nodi addysg sefydliadol mewn perthynas â rhannu gwybodaeth am beidio mynd i apwyntiadau a'r angen am chwilfrydedd proffesiynol mewn perthynas â pheidio mynychu.

Cydymffurfio Cudd a Chwilfrydedd Proffesiynol

Cydnabu'r Digwyddiad Dysgu bod y gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'r teulu yn ymarferwyr

profiadol ond mae'r llinell amser yn dangos y gallai fod cyfleoedd ar gyfer chwilfrydedd gan weithwyr proffesiynol.

Amlygodd gronoleg Addysg bod brawd neu chwaer Plentyn A wedi mynd i'r ysgol gyda chlais ar y llygad; dywedodd y Fam bod y plentyn wedi cerdded i mewn i bolyn lamp. Nid yw hanes y plentyn wedi cael ei dystiolaethu o fewn y llinell amser ond yn ystod y Digwyddiad Dysgu nododd addysg bod y plentyn wedi darparu'r un hanes â'r Fam. Er bod y plentyn a'r Fam wedi darparu'r un esboniad, byddai trafodaethau pellach gyda'r plentyn ar wahân wedi bod yn ymarfer da.

Pedair blynedd yn gynharach, bu pryderon am blentyn arall gyda chlais ar y pen, a datgelodd y plentyn mai "mam yn taflu potel ata i" oedd y rheswm. Daeth ymchwiliad Adran 47 ar y cyd i'r casgliad bod yr anaf yn un damweiniol. Cyn yr ymweliad, cafodd y Fam ei hysbysu o'r rheswm dros ymweliad Adran 47 gan y Gwasanaethau Plant. Yn ystod yr ymweliad roedd y plentyn yn ymddangos yn hapus, ac ni ddatgelodd unrhyw bryderon, ac fe ddaeth yr heddlu a'r Gwasanaethau Plant â'r achos i ben. Mae gwaith ymchwil yn dangos ni fyddai nifer o blant yn datgelu camdriniaeth neu byddant yn tynnu datgeliad yn ôl; gall hyn amrywio am nifer o resymau. Os yw rhywun maent yn eu hadnabod a'u hymddiried yn cam-drin y plentyn, efallai y byddant yn credu bod hyn yn normal, heb adnabod bod rhywbeth o'i le. Gall pwysau teuluol fod yn ddigon sylweddol i annog plentyn neu berson ifanc i dynnu eu datgeliadau yn ôl (NSPCC, 2013).

Mae'r llinell amser yn dangos, er na ymatebodd y Fam i bryderon yr ysgol, fe wnaeth hi ymgysylltu, ac ymateb i ymweliadau gan yr Heddlu, Gwasanaethau Plant, ac ymgysylltu i ryw raddau ag lechyd; er roedd tystiolaeth o 'Ni Ddaethpwyd â'r Plentyn' i'r clinig neu ymweliadau cartref o fewn cofnodion iechyd y plentyn. Nid yw'r llinell amser yn cyfeirio at gais y Fam am ragor o gefnogaeth, fel yr adroddwyd gan y Fam i'r adolygwyr. Mae cydymffurfio cudd yn cyfeirio at y rhieni'n cydweithredu gydag asiantaethau lles plant, ac nid unrhyw asiantaethau eraill. Mae'n sôn am y rhieni'n cydweithredu gyda'r asiantaethau lles plant i osgoi amheuan, i liniaru pryderon gweithwyr proffesiynol, ac yn y pendraw, lleihau amhariad gweithwyr proffesiynol (NSPCC, 2020).

Gan ddysgu o Adolygiadau Achosion Difrifol o 2014 ymlaen, canfu'r NSPCC, o fewn achosion cydymffurfio cudd, mae'r rhieni yn datblygu perthynas dda gyda rhai gweithwyr proffesiynol, wrth feirniadu neu anwybyddu eraill, efallai bydd rhai yn dweud y pethau cywir, neu ymgysylltu 'ddigon' i fodloni ymarferwyr (NSPCC, 2019). Amlygodd y briiff y dylai ymarferwyr ddangos chwilfrydedd proffesiynol wrth weithio gyda theuluoedd, a pheidio derbyn gwybodaeth gan rieni heb ymchwilio ymhellach. Dylai ymarferwyr ganolbwyntio ar brofiad bywyd y plentyn yn hytrach na gweithredoedd y rhieni a'r gofawyr (NSPCC, 2019). Darparodd y llinell amser a'r Digwyddiad Dysgu ychydig iawn o dystiolaeth o brofiadau bywyd y plant, a phan holwyd y rhieni am eu defnydd o ganabis, cymerwyd eu hymateb yn arwynebol, heb dystiolaeth o ymchwiliadau pellach yn cael eu cynnal.

Mae Reder *et al* (1993) yn darparu enghreifftiau o gydymffurfio cudd fel ymgysylltu gyda gweithwyr proffesiynol am gyfnod byr, neu ddarparu amodau'r cartref am gyfnod byr, gan adael iddynt ddirywio eto. Yn y Digwyddiad Dysgu, rhannodd yr ysgol y byddai ymddangosiad a glanweithdra'r plant "i fyny ac i lawr" gyda'r rhieni'n ymateb i'w pryderon ac ymddangosiad y plant yn gwella, ond ni fyddai'r rhieni yn cynnal y newidiadau hyn a byddai ymddangosiad y plant yn dirywio eto. Dangosodd y llinell amser nad oedd rhieni'n gallu cynnal cyflwr y tŷ 'chwaith, oherwydd bu saith cyfeiriad at gyflwr gwael y cartref. Byddai rhieni'n ymateb i bryderon gweithwyr proffesiynol ac yn gwella cyflwr y cartref am ychydig, ond byddai'n dirywio eto'n fuan wedi hynny.

Awgrymodd Lord Laming (2003) yn Ymchwiliad Victoria Climbié bod angen i weithwyr cymdeithasol ymarfer "ansicrwydd parchus", a elwir hefyd yn chwilfrydedd proffesiynol, drwy gymhwyso gwerthusiad beirniadol i unrhyw wybodaeth maent yn ei dderbyn ac yn cadw meddwl agored. Dylai gweithwyr proffesiynol geisio deall be sy'n digwydd o fewn teulu, yn hytrach na thybio neu dderbyn pethau fel y maent. Nid oedd y llinell amser yn dangos tystiolaeth o weithwyr proffesiynol yn gorfod gofyn i rieni pam nad oeddent yn gallu cynnal cyflwr y tŷ. Nid oedd

tystiolaeth eu bod wedi gofyn i'r rhieni pam fod y plant yn mynd i'r ysgol gyda llau pen ac ymddangosiad blêr dro ar ôl tro. Pan ddatgelodd berson ifanc bod yna werthu cannabis yn digwydd o'r cartref i'r Gwasanaethau Plant, derbyniodd y gweithwyr proffesiynol ymateb y rhiant yn hytrach na gofyn pam fyddai person ifanc yn honni hyn.

Darparodd yr Ymwelydd Iechyd a Nyrs yr Ysgol ymyrraeth iechyd cyffredinol yn unol â'r Rhaglen Plentyn Iach Cymru (2016). Ni chwblhawyd Asesiad Iechyd Cyn Geni rhwng y Fydwaig a'r Ymwelydd Iechyd yn seiliedig ar eu barn broffesiynol, ac ystyriaeth o ddehongliad y canllaw ar y pryd. Mae tystiolaeth o chwech 'Ni Ddaethpwyd â'r Plentyn' i glinig neu ymweliad â'r cartref o fewn y cofnodion iechyd, gyda cyswllt i ganslo dros neges destun a/neu neges llais. O ganlyniad, ni chafwyd trafodaethau gyda'r rhieni i nodi'r rheswm dros ganslo. Mewn perthynas â pheidio mynd i apwyntiadau cynenedigol, ni rannwyd gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol, nid oedd y cofnodion a gadwyd o safon dderbyniol, mewn perthynas â dogfennaeth Hysbysiad o Feichiogrwydd y Fydwaig i'r Ymwelydd Iechyd, a fyddai efallai wedi peri chwilfrydedd proffesiynol mewn gweithwyr proffesiynol i gwblhau Asesiad Iechyd Cyn Geni.

Esgeulustod

Esgeulustod yw absenoldeb darpariaeth ar gyfer anghenion sylfaenol plentyn (Gough, 2005). O fewn y llinell amser roedd nifer o gyfeiriadau i nodi bod y plant yn profi rhai agweddau o esgeulustod. Roedd arwyddion o esgeulustod corfforol yn amlwg ym mhryderon parhaus yr ysgol yn ymwneud â'r plant heb ddillad addas, yn ddrewlyd, yn flêr a gyda achosion parhaus o llau pen. Mae Howarth (2007) yn nodi esgeulustod corfforol yn nhermau glanweithdra ac amodau byw; o fewn y llinell amser roedd saith cyfeiriad i gyflwr gwael y cartref, gan gynnwys materion ynghylch dim bylbiau golau yn yr ystafelloedd, y gegin yn anaddas i baratoi bwyd yn hylan, roedd cyfarpar y gegin yn y bath, a throeth / baw anifail ar y carped. Roedd esgeulustod yn nhermau goruchwyliaeth yn amlwg gyda phryderon dros y plant allan fin nos heb oruchwyliaeth, ac adroddiadau o'r plant gartref ar eu pen eu hunain tra roedd y Fam yn ymweld â ffrind yn y carchar.

Esgeulustod yw'r math mwyaf cyffredin o gam-drin plant yn y Deyrnas Unedig, er weithiau gall fod yr anoddaf i'w adnabod (Gweithredu dros Blant, 2017). Y methiant parhaus i fodloni anghenion sylfaenol y plentyn, ac efallai bod plentyn yn llwglyd neu'n fudr, neu heb ddillad, llety, goruchwyliaeth neu ofal iechyd addas (NSPCC, 2020). Yn gadarnhaol, nododd yr ysgol bod y teulu angen cefnogaeth a fe'u hatgyfeiriwyd at Nyrs yr Ysgol. Serch hynny, nid oedd tystiolaeth o fewn y llinell amser o'r ysgol yn atgyfeirio eu pryderon i'r Gwasanaethau Plant.

Canfu Gweithredu dros Blant (2017) nad yw dros 180,000 o blant sy'n cael eu cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol yn bodloni'r trothwy ar gyfer cefnogaeth. Yr her ar gyfer Gwasanaethau Plant pan mae pryderon yn cael eu mynegi yw bod y trothwy ar gyfer ymyrraeth y wladwriaeth yn ddilys pan mae'r plentyn wedi dioddef, neu'n debygol o ddioddef cam-drin neu amhariad i iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 yn diffinio esgeulustod fel methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol y plentyn, sy'n debygol o arwain at amhariad difrifol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Yn allweddol i'r diffiniad hwn yw 'amhariad parhaus a difrifol'; o fewn yr achos hwn, adroddwyd bod ymddangosiad y plant, cyflwr y cartref ac ymgysylltiad y rhieni gydag addysg yn gwella am gyfnod, ac yna'n dirywio. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi nodi yn ddiweddar bod niwed sylweddol yn digwydd yn amlach oherwydd casgliad hir dymor o ddigwyddiadau, sy'n ymyrryd, newid neu ddifrodi datblygiad corfforol a seicolegol y plentyn.

Canabis

Fe wnaeth y llinell amser bedwar cyfeiriad at ddefnydd canabis o fewn y cartref, o fewn cyfnod o ddau fis. Codwyd y pryder cyntaf gan Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu a aeth i'r cartref; adroddwyd bod arogl cryf o ganabis tu allan a thu mewn i'r cartref, gyda'r tad yn ymddangos fel petai dan ddylanwad canabis. Mis yn ddiweddarach, fe wnaeth y nyrs ysgol atgyfeirio i'r

Gwasanaethau Plant mewn perthynas â phryderon am ddefnydd canabis yn y cartref, yn ogystal â honiadau bod y Fam yn gwerthu canabis o'r cartref. Codwyd pryder pellach gan berson ifanc dan ofal yr Awdurdod Lleol, a oedd wedi bod i gartref y teulu i brynu canabis yn ôl adroddiadau, ac wedi defnyddio'r sylwedd yn yr eiddo. Daeth y pryder olaf gan nyrs yr ysgol a'r ymwelydd iechyd wrth iddynt gynnal ymweliad ar y cyd i'r eiddo gan adrodd bod arogl canabis yn y cartref. Mae'r llinell amser yn dangos bod pob pryder gan ymarferydd yn ymwneud â defnydd y rhieni o ganabis a chyflenwi canabis wedi cael ei rannu gyda Gwasanaethau Plant. Fe wadodd y rhieni unrhyw ddefnydd o ganabis yn ystod ymweliadau dyletswydd y Gwasanaethau Plant, ac ni gymerwyd unrhyw gamau pellach.

Gall camddefnyddio sylweddau arwain at arian yn cael ei ddefnyddio i brynu cyffuriau pan mae ei angen i brynu bwyd a dillad i fodloni anghenion rhianta (Yr Adran Addysg, 2020). Roedd y llinell amser yn adlewyrchu pryderon am ddillad anaddas y plant, a diffyg hanfodion o fewn y cartref, megis bylbiau golau, a all fod yn gysylltiedig â defnydd y rhieni o ganabis.

Yn ystod y Digwyddiad Dysgu, roedd y Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Proffesiynol yn glir nad oeddent wedi gweld unrhyw dystiolaeth o ddefnydd sylweddol o ganabis, nac unrhyw arogl cryf o ganabis yn y cartref. Dywedodd ymarferwyr Gwasanaethau Plant bod defnydd canabis yn gyffredin ar gyfer sawl teulu yr oeddent wedi cael cyswllt â nhw, ac nid oedd defnyddio canabis yn gofyn am gyfranogiad y Gwasanaethau Plant. Nid oedd dystiolaeth yn y cofnodion Iechyd Plant o gyfeirio rhieni at Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau mewn perthynas â defnydd canabis.

Nid oedd Gwasanaethau Plant yn ystyried y defnydd canabis fel pryder sylweddol, a fyddai'n gwarantu ymyrraeth bellach, serch hynny, heb asesiadau, nid oedd llawer o dystiolaeth bod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i effaith posib defnydd y rhieni o ganabis ar y plant. Archwiliodd Adolygiad Achos Difrifol (AAD) gan Sir Gaerhirfryn yn 2017 y mater o ddefnydd y rhieni o ganabis a nododd bod cysylltiad rheolaidd ymarferwyr gyda rhieni sy'n defnyddio canabis yn arwain at risgiau yn cael eu methu (Connor, 2017). Cafodd ddefnydd canabis a'i effaith ar y gallu i fagu plant eu nodi gan AAD blaenorol yn Sir Gaerhirfryn (Plentyn K, 2013), a argymhellodd gynnydd a defnydd mwy cyson o ddulliau asesiad risg a fframweithiau a oedd yn cynnwys canabis. Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, canfu BLIDP nad oedd dealltwriaeth anghyson wedi ymddangos ymysg ymarferwyr am ddifrifoldeb defnydd canabis a'r effaith ar blant (Connor, 2017).

Dynion Cudd

Roedd y cyflawnwr honedig o fewn yr achos hwn yn ddyn anhysbys. Nid oedd asiantaethau'n ymwybodol bod y Fam mewn perthynas â'r dyn, ac o ganlyniad roedd yn risg anhysbys, ac ni fyddai gweithwyr proffesiynol wedi rhagweld yr anafiadau a achoswyd i Blentyn A.

Mae Briff NSPCC (2015) ar 'Ddynion Cudd: Dysgu o Adolygiadau Achos' yn amlygu meysydd allweddol wrth nodi dynion cudd, mae'r briff yn nodi y gall diffyg rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau oedolion a gwasanaethau phlant fod yn ffactor risg. Nid yw'n hysbys a oedd y cyflawnwr honedig yn gweithio gydag unrhyw wasanaethau oedolion, felly nid oes modd pennu a oedd diffyg rhannu gwybodaeth, yn nhermau'r dyn, ac nid oedd yr adolygwyr yn gwybod a oedd y Fam wedi bod yn agored gydag unrhyw wasanaethau oedolion.

Canfu'r NSPCC (2015) bod gweithwyr proffesiynol yn dibynnu'n ormodol ar y Mamau am wybodaeth hanfodol ynghylch y dynion oedd yn rhan o fywyd y plant. Amlygwyd a yw Mamau yn rhoi eu hanghenion eu hunain yn gyntaf, efallai nad ydynt yn onest am y risg mae'r dynion yn eu cyflwyno i'w plant. Yn ystod y Digwyddiad Dysgu, rhannodd ymarferwyr, heb ofyn i'r Fam a oedd hi'n cael affêr, nid oedd ffordd o wybod a oedd hi mewn perthynas arall. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol y byddai'r cwestiwn yn teimlo'n feirniadol.

Nodwedd gyffredin mewn achosion achos a gwaith archwilio yn genedlaethol yw'r canfyddiadau ailadroddus bod tadau a ffigurau gwrywaidd yn aml ar goll yn y cofnodion. Mae'r NSPCC (2015)

yn nodi addysg ar gyfer gwell ymarfer, sy'n awgrymu bod iechyd, yn ystod beichiogrwydd, ac ar ôl geni, yn gwneud ymholiadau gweithredol am Tad y plentyn, perthnasau'r Fam, ac unrhyw oedolion mewn cyswllt gyda'r plentyn. Nid oedd y cofnodion iechyd yn dangos a oedd y Tad yn bresennol yn ystod apwyntiadau iechyd Plentyn A.

Mae risg cynyddol o gamdriniaeth i blant sy'n byw mewn aelwyd lle nid yw un rhiant, y Tad fel arfer, yn perthyn i'r plant wedi cael ei ymchwilio'n drylwyr. Yn 2009 - bu farw Peter Connelly, 17 mis oed o anafiadau nad oeddent yn ddamweiniol, a thynnodd adolygiad achos difrifol sylw at risg o ddyn nad oedd yn perthyn yn ymuno â'r aelwyd; yn 2014 – bu farw Plentyn J o anafiadau nad oeddent yn ddamweiniol a nododd adolygiad achos difrifol mai un o'r pryderon a amlygwyd oedd dynion anhysbys yn y cefndir (BLIDP Brighton a Hove).

Yn ystod y Digwyddiad Dysgu, dywedodd y gweithwyr proffesiynol nad oedd ganddynt wybodaeth o'r cyflawnwr honedig, a phetaent yn gwybod amdano, ni fyddai'r anafiadau i Blentyn A wedi cael eu rhagdybio oherwydd nid oedd gan y cyflawnwr honedig droseddau blaenorol yn erbyn plentyn, ac ni oedd yn hysbys i'r heddlu am ymddygiad oedolyn ymosodol.

Er bod yr adolygwyr yn rhannu, ni allai'r anafiadau y cafodd Plentyn A eu rhagweld oherwydd nid oedd ganddynt unrhyw ddealltwriaeth bod y Fam mewn perthynas â'r cyflawnwr honedig. Petai'r gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r dyn, byddai dealltwriaeth am ei rôl o fewn y cartref a'i berthynas gyda Phlentyn A wedi cael ei asesu.

Ymdopi â Chrio

Mabwysiadodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ganllaw Ymdopi â Chrio yn 2016 ac mae'n cael ei adolygu ar hyn i bryd gan Gynghrair y Merched. Mae Canllaw 'Ymdopi â Chrio' Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cefnogi staff wrth gynghori rhieni newydd ar sut i ymdopi â babi'n crio a'r canlyniadau o ysgwyd babi. Mae'n ymyrraeth sydd wedi'i leoli yn yr ysbyty ac yn targedu rhieni a gofalwyr babanod newydd anedig. Mae rhieni/gofalwyr yn cael eu gwahodd gan staff bydwreigiaeth aciwt i wylio DVD 10 munud o hyd cyn cael eu rhyddhau ar ôl genedigaeth eu babi (neu gartref os ydynt yn geni yn y cartref, os yw'n cael ei eni mewn ysbyty tu allan i'r ardal, neu os ydynt wedi symud i'r ardal yn ddiweddar). Mae taflen wybodaeth yn cael ei rhoi i'r rhieni/gofalwyr yn y cyfnod ar ôl geni, cyn iddynt wylio'r DVD. Mae'r canllawiau yn dweud yn glir, os yw'n cael ei wrthod gan y rhieni/gofalwyr mewn lleoliad bydwreigiaeth aciwt, mae'r fydwraig gymunedol yn gwahodd y rhieni i wylio'r DVD yn y gymuned ac os nad yw'n cael ei dderbyn bryd hynny, mae'r Ymwelydd Iechyd yn gwahodd y rhieni i wylio'r DVD hyd at un oed.

Gofynnodd yr adolygwyr am ragor o eglurder gan y fydwraig ac aelodau panel ymweld iechyd i sicrhau a oedd y rhieni wedi derbyn y cyngor. Eglurodd aelod y panel bydwreigiaeth bod tic yn y blwch yn y cofnodion ôl-enedigol, mewn perthynas â chael y drafodaeth 'Ymdopi â Chrio' cyn gadael y ward. Serch hynny, nid yw'n egluro os wrthododd y Fam i wylio'r DVD 10 munud neu a rannwyd y daflen wybodaeth. Nid oedd yr adolygwyr yn glir a oedd y canllawiau 'Ymdopi â Chrio' wedi'u cofnodi yn y trosglwyddiad i'r fydwraig gymunedol. Nid oes tystiolaeth o drafodaethau mewn perthynas â'r Rhaglen Ymdopi â Chrio yng nghofnodion yr Ymwelydd Iechyd. Serch hynny, cydnabu'r adolygwyr bod y canllaw yn cyfeirio at yr ymyrraeth hon fel un i rieni newydd ac yn ddiweddarach yn y canllaw, mae'n cyfeirio at bob rhiant a gofalwr.

Casgliad

O'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r adolygwyr, mae'n amlwg bod cyfnodau pan nad oedd y rhieni yn bodloni anghenion gofal sylfaenol y plant, ddim yn darparu goruchwyliaeth ddigonol o'r plant ac nid oeddent yn gallu cynnal cyflwr y cartref. Arweiniodd ymyrraeth dymor byr i lanhau'r cartref at arwyddion o welliannau, ac nid oedd ymyrraethau pellach o ganlyniad i hynny. Gadawodd diffyg asesiad i archwilio'r materion hyn ymhellach i ddarparu atebion – pam nad oedd bylbiau golau? Pam oedd cyflwr y cartref mor wael? - Yr adolygwyr yn cwestiynau a oedd materion iechyd meddwl sylfaenol, a oedd y teulu yn byw mewn tlodi, neu a oedd y rhieni yn blaenoriaethu eu

anghenion a'u dymuniadau eu hunain i ddefnyddio canabis ar draul bodloni anghenion eu plant. Fwyaf arwyddocaol oedd diffyg archwiliad o brofiadau'r plant a sut effeithiodd cyflwr gwael y cartref, camddefnyddio sylweddau'r rhieni, yr esgeulustod, ar eu diogelwch, eu iechyd a'u lles yn gyffredinol.

Roedd yr adolygwyr yn cydymdeimlo â'r heriau a wynebodd yr ymarferwyr, ac nid oedd tystiolaeth o fewn y llinell amser mewn perthynas â'r Fam yn gwneud cais am, neu'n derbyn cefnogaeth, a'r casgliad gan adolygwyr yw, nid oedd y Fam eisiau'r gefnogaeth gan weithwyr proffesiynol i fynd i'r afael â'r anawsterau roedd y teulu'n profi.

Ffactor risg allweddol yn yr achos hwn oedd y dyn anhysbys. Nid oedd unrhyw weithiwr proffesiynol yn ymwybodol o'r dyn. Nid oedd y plant wedi rhannu unrhyw wybodaeth gyda'r ysgol yn ymwneud â'r dyn, ac nid oedd y Fam wedi hysbysu unrhyw weithwyr proffesiynol ohono. O gwrdd â'r Fam, roedd yr adolygwyr yn deall yr anawsterau y byddai'r gweithwyr proffesiynol wedi eu cael wrth dderbyn unrhyw wybodaeth arwyddocaol.

Roedd yr adolygwyr wedi cael sicrwydd gan aelod o'r panel bydwreigiaeth bod tystiolaeth o drafodaeth am 'Ymdopi â Chrio', ond nid oed tystiolaeth a oedd y rhieni wedi gwyllo'r DVD neu dderbyn y daflen wybodaeth. Mae angen i'r canllaw fod yn glir a yw'r ymyrraeth ar gyfer rhieni/gofalwyr newydd neu pob rhiant a gofalwyr. Mae'r adolygwyr yn argymhell bod yr ymyrraeth hon yn cael ei chynnig i bob rhiant, ac yn cael ei chofnodi yng nghofnodion yr ymwelydd iechyd.

Wrth nodi'r addysg o'r adolygiad hwn, mae'n bwysig cydnabod bod gweithwyr proffesiynol wedi ymateb i anghenion y teulu, fel yr oeddent yn eu deall ar y pryd. Nid oedd tystiolaeth y byddai'r wybodaeth a rannwyd yn yr adroddiad hwn wedi rhagweld yr anafiadau a ddioddefodd Plentyn A.

Hoffwn ddiolch i bob gweithiwr proffesiynol am eu cyfraniad i'r adolygiad hwn, a'u parodrwydd i adlewyrchu ac i ymchwilio i addysg ar gyfer ymarfer yn y dyfodol.

Argymhellion

1. Ymdopi â Chrio:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i adolygu'r Canllawiau Ymdopi â Chrio a hyfforddiant i Fydwreigedd ac Ymwelwyr Iechyd a bydd yn sicrhau bod dogfennau'n adlewyrchu cofnodi cywir bod ymyriadau wedi'u cynnig i bob rhiant a gofalwr. Bydd hyn yn cael ei gyflawni gan archwiliad bob 6 mis o'r cofnodion

2. Esgeulustod:

Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru i hwyluso datblygiad pecyn hyfforddi esgeulustod amlasiantaethol. I gynnwys esgeulustod anghenion corfforol, cyflwr gwael y cartref, defnydd canabis y rhieni, anghenion gofal sylfaenol a diffyg goruchwyliaeth.

3. Cadw Cofnodion a Chyfathrebu:

Pob asiantaeth i adolygu systemau cofnodi a phrotocolau rhannu gwybodaeth ag asiantaethau partner. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy asiantaethau'n cyflawni archwiliad bob 6 mis o'r cofnodion.

4. Llais y Plentyn:

Pob asiantaeth i adolygu polisiau a gweithdrefnau ac i ddarparu bod sicrwydd o lais y plentyn yn cael ei adlewyrchu yn yr ymarfer yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

5. Chwilfrydedd Proffesiynol/Dynion Cudd:

Pob asiantaeth i adolygu eu pecynnau hyfforddi eu hunain ar gyfer datblygu eu sgiliau gweithlu o ran chwilfrydedd proffesiynol er mwyn cael darlun clir o bwy yw'r oedolion ym mywyd y plentyn a bod hyn yn cael ei ddangos yn glir yng nghofnodion asiantaethau.

Datganiad yr Adolygwyr

ADOLYGWR 1:

Lisa Capper
Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol

ADOLYGWR 2:

Angela Roberts
Arweinydd Datblygiad Ymarfer Diogelu

Datganiad annibyniaeth o'r achos

Datganiad o gymhwyster i ddibenion sicrhau ansawdd

Datganiad annibyniaeth o'r achos

Datganiad o gymhwyster i ddibenion sicrhau ansawdd

Rwy'n cyflwyno'r datganiad canlynol cyn cyfrannu at yr adolygiad dysgu hwn:

- Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.
- Nid wyf wedi bod yn rheolwr atebol uniongyrchol ar yr ymarferwyr dan sylw.
- Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant i ymgymryd â'r adolygiad.
- Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd y gwaith dadansoddi a gwerthuso mewn perthynas â'r materion yn y Cylch Gorchwyl yn drwyadl.

Rwy'n cyflwyno'r datganiad canlynol cyn cyfrannu at yr adolygiad dysgu hwn:

- Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.
- Nid wyf wedi bod yn rheolwr atebol uniongyrchol ar yr ymarferwyr dan sylw.
- Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant i ymgymryd â'r adolygiad.
- Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd y gwaith dadansoddi a gwerthuso mewn perthynas â'r materion yn y Cylch Gorchwyl yn drwyadl.

Adolygwr 1
(Llofnod)



Enw
(Print)

Lisa Capper

Dyddiad

5 Mehefin 2020

Cadeirydd y Panel Adolygu:
(Llofnod)



Enw
(Print)

Jonathan Salisbury-Jones

Dyddiad

5 Mehefin 2020

Adolygwr 2
(Llofnod)



Enw
(Print)

Angela Roberts

Dyddiad

5 Mehefin 2020

Cyfeiriadau:

All Wales Child Protection Procedures (2008), Ar gael o: www.awcpp.org.uk. [Mynediad electronig ar 6 Mawrth, 2020.]

Brighton and Hove Safeguarding Board (2020), *Learning from Serious Case Reviews re: Fathers and Male Figures*. Ar gael o: <https://www.brightonandhovelscb.org.uk/wp-content/uploads/Learning-from-SCR-re-Fathers-and-Male-Figures.pdf>. [Mynediad electronig ar 19 Ebrill 2020.]

Connor, Dr. Cath (2017), *Serious Case Review Overview Report, Child LH*. Ar gael o: <http://www.lancshiresafeguarding.org.uk/media/32696/Child-LH-REPORT-Final.pdf>. [Mynediad electronig ar 14 Ebrill 2020.]

Daniel, B., Taylor, J., Scott, J., Derbyshire, D and Neilson, D. (2011) *Recognising and Helping the Neglected Child: Evidence-Based Practice for assessment and Intervention*. London: Jessica Kingsley Publishers

Department for Education, 2020. *Complexity and challenge: a triennial analysis of SCRs 2014-2017 Final report*. Department for Education.

Gough (2005), *Neglect Research: Evidence to Inform Practice*. Ar gael o: https://www.actionforchildren.org.uk/media/3368/neglect_research_evidence_to_inform_practice.pdf. [Mynediad electronig ar 16 Ebrill 2020.]

Howarth (2007) https://www.actionforchildren.org.uk/media/3368/neglect_research_evidence_to_inform_practice.pdf

<https://learning.nspcc.org.uk/research-resources/learning-from-case-reviews/disguised-compliance/>

Laming, Lord, (2003) *The Victoria Climbié inquiry: report of an inquiry by Lord Laming (PDF)*. Norwich: TSO P205.

National Society for the Prevention of Cruelty to Children, (2020), *Preventing Abuse- Disguised Compliance*. Ar gael o: <https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-protection-system/case-reviews/learning/disguised-compliance/>. [Mynediad electronig ar 2 Ebrill, 2020.]

National Society for the Prevention of Cruelty to Children, (2020), *what is child abuse/types of abuse, neglect, what is?* Ar gael o <https://www.nspcc.org.uk/what-is-child-abuse/types-of-abuse/neglect/#what-is>. [Mynediad electronig ar 3 Ebrill 2020.]

National Society for the Prevention of Cruelty to Children, *Storing Child Protection Information* (2020), Ar gael o: <https://learning.nspcc.org.uk/safeguarding-checklist?state=1#storing-child-protection-information>. [Mynediad electronig ar 9 Ebrill 2020.]

National Society for the Prevention of Cruelty to Children 2013. *No one noticed, no one heard*. Ar gael o: <https://learning.nspcc.org.uk/media/1052/no-one-noticed-no-one-heard-report.pdf>. [Mynediad electronig ar 17 Mawrth 2020.]

National Society for the Prevention of Cruelty to Children 2015. *Hidden men: learning from case reviews Summary of risk factors and learning for improved practice around 'hidden' men*. NSPCC.

Ofsted (2011), *The voice of the child: learning lessons from serious case reviews*. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/526983/Summary_-_The_voice_of_the_child.pdf. [Mynediad electronig ar 14 Ebrill 2020.]

Reder, P., Duncan, S. and Gray, M. (1993) *Beyond blame: child abuse tragedies revisited*. London: Routledge

Rees, Alyson, Dehaghani, Roxanna, Slater, Thomas, Swann, Rachel and Robinson, Amanda L (2019) *Findings from a thematic analysis of Child Practice Reviews in Wales*. Cardiff University.

Rees, Alyson, Dehaghani, Roxanna, Slater, Thomas, Swann, Rachel and Robinson, Amanda L (2019) *Findings from a thematic analysis of Child Practice Reviews in Wales*. Cardiff University.

Revell, L. and Burton, V. (2016), 'Supervision and the Dynamics of Collusion: A Rule of Optimism', *British Journal of Social Work*, Vol. 46, No 6, pp. 1587-1601

SCIE (2016), *Learning from Case Reviews*. Ar gael o:
<https://www.scie.org.uk/children/safeguarding/case-reviews/learning-from-case-reviews/02.asp>.
 [Mynediad electronig ar 20 Ebrill 2020.]

The Safeguarding Boards (Functions and Procedures) (Wales) Regulations 2015

Welsh Government, (2014), *Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Working Together to safeguard People: Volume 5 – Handling Individual Cases to Protect Children at Risk*. Cardiff: Welsh Government Publication.

Proses Adolygu Ymarfer Plant

Dylid cynnwys (yn fras):

- *Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolir ar y Panel Adolygu*
- *Y digwyddiad dysgu a gynhaliwyd a'r gwasanaethau a fynychodd*
- *Hysbyswyd aelodau o'r teulu, gofynnwyd am eu barn ac fe'i cynrychiolwyd drwy'r digwyddiad dysgu a darparwyd adborth iddynt.*

Gwrthododd y teulu gymryd rhan

At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn Unig

Dyddiad a dderbyniwyd y wybodaeth

Dyddiad y cafodd llythyr o gydnabyddiaeth ei anfon at Gadeirydd y Bwrdd.....

Dyddiad ei ddsbarthu i'r arolygiaethau/arweinwyr polisi perthnasol

Asiantaethau	Ie	Na	Rheswm
AGC			
Estyn			
AIC			
Heddlu AEM			
Gwasanaeth Prawf AEM			